Ardal Tywyn – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Nos Lun 19 Hydref 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Statutory Head of Education Services)
Dilwyn Price (DP) (Head of School Improvement Services)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwr y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. Dr S H Anderson

1. Cyflwyniad

Rhoddodd DB gyflwyniad ar y cyfarfod gan esbonio'r drefn a'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar sut mae'r cynllun yn dod yn ei flaen a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Eglurodd nad oedd tudalen 10 dogfen Ardaloedd i'w Hadolygu yn feirniadaeth o ysgolion babanod ac iau ar wahân ac ymddiheuroadd am beidio a chynnwys y manteision.

Sesiwn cwestiynau ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

s: Pryder os bydd yr ysgolion yn cyfuno bydd yr ysgol yn rhy fawr.
A: Byddwn yn ystyried y pwynt hwn.
C: Bydd datblygiadau tai yn cynyddu ym Mae Cinmel yn y dyfodol, sut fyddwch yn cymryd hyn i ystyriaeth?
A: Wedi cymryd ystyriaeth o'r CDLl ac wedi cynnwys rhagamcanion tai gyda'n rhagamcanion a gyfrifwyd.
S: Pam nad yw'r rhifau hyn wedi eu cynnwys yn y ddogfen yn awr?
A: Ni allwn ragweld y dyfodol ac nid ydym yn gwybod pwy fydd yn symud i'r datblygiadau hyn. Adolygir rhagamcanion bob blwyddyn.
S: Llawer o fewnfudo i'r ardal hon – ddim eisiau ysgol sy'n llawn dop ac angen mwy o le.
A: Mae hwn yn bwynt da a bydd yn cael ei ystyried.
C: A ydych wedi ystyried y carafannau sydd bellach yn cael eu defnyddio am flwyddyn?
A: Mae Cyng. Bevan wedi nodi'r pwynt hwn yn flaenorol a bydd y rhagamcanion yn cael eu hailymweld ar sail hyn.
C: Pam fod manteision cyfuno babanod ac iau wedi eu cynnwys yn y ddogfen? Dylid cyflwyno barn oedd yn fwy cytbwys.
A: Ymddiheuriadau am gynnwys hyn ond bydd DP yn cyflwyno manteision ysgolion babanod ac iau ar wahân yn ystod ei gyflwyniad.
S: Angen ystyried pwyntiau ymarferol os am adeiladu ysgol newydd sbon. Angen bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.
C: A fydd staff yn colli eu swyddi os bydd cyfuno?
A: Rydym yn llunio tîm AD ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd a byddwn yn defnyddio hwn i gynghori staff trwy'r camau nesaf. Byddwn yn ceisio defnyddio newidiadau naturiol megis ymddeoliad ond ni allwn wneud unrhyw addewidion ar hyn o bryd.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Cyfeiriodd at dudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedodd bod y ddwy ysgol yn cyflawni'r anghenion hyn. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o'r ysgol a'r modd mae'n gweithredu nawr. Gall y modd mae wedi ei ysgrifennu ar dudalen 10 edrych fel petai cyfuno babanod ac iau yn strategaeth ond nid dyma'r achos ac ymddiheuriadau am hyn. Daeth y manteision a restrir o Dorfaen ac fe'u cymeradwywyd gan Weinidog Cymru fel rhestr o fanteision posibl. Yna rhoddodd DP restr o fanteision ar gyfer ysgolion babanod ac iau ar wahân:

- Mae ysgolion babanod ac iau yn canolbwyntio ar un cyfnod allweddol yn unig
- Mae staff yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio eu haddysgu a dysgu yn benodol ar yr amrediad oed disgyblion.
- Mae staff yn arbenigo ar un cyfnod allweddol ac yn defnyddio cyfleoedd sy'n ymwneud â chyfnod allweddol penodol.
- Mae llwybr gyrfa staff yn fwy penodol.
- Mae babanod yn cael cyfleoedd cynyddol i dderbyn cyfrifoldeb.
- Mae buarth chwarae babanod ac iau ar wahân yn caniatáu mwy o chwarae sy'n briodol i oed a chyfleoedd datblygu.

Un posibilrwydd fyddai ysgol a gyfunwyd ar un safle ond gyda dau adeilad. Rhaid nodi o ran cyfrifo cynhwysedd ni chymerir ystyriaeth o blant meithrin nac arwynebedd llawr a bod cynhwysedd yr ysgol yn seiliedig ar faint y llawr. Mae rhagamcanion yn seiliedig ar gyfartaledd derbyniadau tair blynedd ac fe'u hadolygir yn flynyddol. Nododd DP fod yr ysgol yn gwasanaethu ei chymuned.

Sesiwn cwestiynau ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Ymholiad ynghylch cynhwysedd ysgolion?
A: Gellir ail edrych ar gynhwysedd ysgolion.
S: Angen edrych y tu hwnt i gynhwysedd a gwella
A: Eisiau cynnal a gwella pob adeilad. Os am wella dau adeilad, mae cyfle i geisio am y pot o arian ar gyfer gwelliannau.

Eglurodd GT y gweithdy. Eisiau gwybod 'Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd?' a 'Beth allwn ei wella?'

3. Adborth gweithdy

Beth sy'n gweithio nawr?

- Safleoedd ar wahân - dau grŵp oedran yn elwa o gael eu cadw ar wahân
- Ysgolion llai mwy personol - ni chollir plant yn y system
- Canlyniadau arolwg Ysgol y Foryd!
- Symud o Y Foryd i Maes Owen yn cefnogi aeddfedrwydd - "Rwyf mewn ysgol fawr rŵan"
- ASD - llai brawychus mewn ysgolion llai gan fod y llywodraeth yn hyrwyddo ymgynnwys yn y brif ffrwd
- Babanod ar wahân yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i blant - yn arbennig ym mlwyddyn 2. Mae ganddynt gyfle i ddysgu annibyniaeth.
- Llai brawychus i blant tair blwydd oedd sy'n cychwyn mewn ysgol fabanod o gymharu ag ysgol gynradd

- Llai o blant yn golygu – addysgu mwy o sgiliau ABCh amser cinio – annog bwyta'n iach – gellir addysgu plant i chwarae gemau a gofalu am ei gilydd – bydis bl 1 a bl2
- Staff – cyflogir athrawon arbenigol
- Gweithio fel tîm ymroddgar/gofalgar
- Babanod yn mynd i amgylchedd diogel – gadael cartref am y tro cyntaf
- Offer awyr agored penodol (Y Foryd)/beics etc. Efallai y byddant yn cael eu dinistrio os y'i rhennir gyda phlant hŷn
- Mae disgyblion yn hapus, pam newid hynny?
- Darperir ar gyfer lles y disgybl
- Mae darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn gweithio'n dda mewn awyrgylch bychan
- Mae gennym le ar gyfer poblogaeth symudol – erbyn y gwanwyn byddwn yn llawn
- Staff â gwybodaeth bersonol o blant mewn ysgolion llai – 500+ yn broblem mewn cyfnod pwysig o ddatblygiad
- Staff yn arbenigo mewn cyfnodau allweddol penodol
- Datblygu cyfrifoldeb plant blwyddyn 2
- Mannau chwarae ar wahân, mwy diogel
- Cyfleoedd datblygu staff da a strwythur gyrfa
- Haws i arweinwyr pwnc gadw golwg ar safonau
- Cyfleoedd gwych i ymgynghori

Beth ellir ei wella?

- Mynd i'r afael â diffyg lle, rhai o'r dosbarthiadau yn rhy fach/poeth/tywyll
- Angen uwchraddio'r system wresogi
- Ymestyn a datblygu cyfleusterau presennol
- System wresogi ar wahân ar gyfer Y Foryd
- Mwy o gydweithrediad o ran meysydd pwnc, traws gyfnodau, rhannu profiadau
- Un corff llywodraethol i gydlynu datblygiad y ddwy ysgol
- Mwy o gydweithrediad rhwng ysgol bl 2/3 e.e. clybiau ar ôl ysgol ar y cyd, cyfnewid staff, ymweliadau
- Dau ddosbarth yn Ysgol y Foryd angen drysau allanol (ni fyddai hyn yn anodd ei gyflawni - eisoes yn wal o ffenestri)
- Cae chwarae mwy Y Foryd
- Cyd gyfleusterau, canolfan TG, llyfrgell (problemau gydag amserlennu/rotas?)
- Dylunio gwell ar gyfer adeilad Ysgol y Foryd – adeiladu ar i fyny?
- Trosiant/gwell cysylltiadau a chyfathrebu
- Dilyniant mewn safonau o'r babanod i'r iau
- Gwell cyfathrebu gyda rhieni disgyblion newydd ym Maes Owen
- Angen ethos/diwylliannau/gwerthoedd cyffredin
- Ysgol feithrin ar wahân

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: Wedi gweld ystadegau sy'n dangos fod ysgolion ar wahân yn well na rhai wedi eu cyfuno. Meddwl mai'r mater allweddol yw maint.
A: Heb weld yr ystadegau hyn ond yn deall pe byddai unrhyw fath o gyfuno byddech eisiau cadw dau safle
C: A yw hyn yn ymarfer arbed arian, disgyblion sydd bwysicaf?
A: Mae disgyblion yn holl bwysig ac nid yw hyn yn ymarfer arbed arian. Rydym yn ceisio defnyddio arian yn fwy effeithlon. Angen cael grant i wneud gwelliannau ac angen cyfarfod meini prawf LICC.
C: Os bydd ysgolion yn symud i safle arall a'ch bod yn gwerthu'r tir, beth fydd yn digwydd i'r arian o'n gwerthiant? A fydd yn dod yn ôl i addysg?
A: Bydd, bydd angen buddsoddi'r arian h.y. cost yr adeilad newydd.
S: Trafodwyd hyn yn y gorffennol. Mae'r ddau adeilad mewn cyflwr gwael ac fe'u hadeiladwyd dros 50 mlynedd yn ôl, gellir gwneud gwelliannau i'r adeiladau a byddai'n cefnogi'r syniad o un corff llywodraethol. Nid yw'r un o'r ddwy ysgol yn ddigon mawr ar gyfer eu haddasu i un ysgol.
S: Os ydych am adeiladu ysgol newydd sbon yn rhywle arall, mae'n debygol y derbynnir hyn.
A: Bydd y strategaeth yn cynnwys cyfnod o 5-15 mlynedd, bydd yr ardaloedd hynny sydd eisiau newid yn mynd gyntaf.
S: Ar ôl i ddatblygwyr ddechrau adeiladu tai eto yn yr ardal, dylech ystyried adeiladu ysgol newydd bryd hynny. Teimlo y dylech ystyried ardaloedd eraill i ddechrau.
A: Os nad ydych eisiau newid, rhaid i chi gofio na chewch gyfle i wella am 5-15 mlynedd. Mae pot o arian atgyweirio a chynnal ond mae hwn yn lleihau.
S: Fel y dywedwyd, nid oes rhaid i adeilad newydd fod yn un adeilad, gall fod yn ddwy uned ar wahân gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol. Ar hyn o bryd, mae problemau teithio mawr yn y safleoedd presennol.
A: Mae'r hyn a gynigiwyd gennych yn rhywbeth y gallwn edrych arno. Gallwn ofyn i'r adran gynllunio edrych ar wahanol safleoedd. Mae LICC yn hoff o syniadau sy'n cysylltu â defnydd cymunedol.
S: Ddim yn meddwl fod ein hardal yn flaenoriaeth o ran adeilad newydd.
S: Ddim yn meddwl eich bod am adeiladu ysgol newydd ym Mae Cinmel gan fod ysgolion eraill yn y sir sydd angen gwario mwy arnynt
A: Rhaid i ni ystyried pob ysgol yng Nghonwy a blaenoraethu yn ôl lefel yr angen.
C: A fyddai dwy ysgol ar wahân fel maent yn bresennol yn cael arian i wella?
A: Mae'n amheus gan fod LICC eisiau i ni resymoli ac ni fyddai hyn yn caniatáu ar gyfer y cyfle hwnnw.
C: Felly mae hyn yn ymwneud ag arian ac nid disgyblion?
A: Angen defnyddio adnoddau cyn gost effeithiol ag sy'n bosib.
S: Meddwl bod corff llywodraethol yn bwysig iawn mewn ysgol
A: Cydnabod hyn gan fod corff llywodraethol yn dal bob dim gyda'i gilydd
C: Sut mae ardaloedd eraill yn teimlo ynghylch cyfuno babanod ac iau?
A: Mae'r rhan fwyaf wedi ymateb mewn modd tebyg, ond mae pynciau lleol.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

<u>Wal syniadau / pryderon</u>

- A all yr ysgol fynd yn rhy fawr?
- Angen lle ar gyfer mewnfudo tymhorol
- Newid yn nefnydd parciau carafán o 10 mis i 12 mis
- Ail edrych ar gyfrifiad cynhwysedd
- A ddylem edrych ar ‘ysgol ddelfrydol’ yn hytrach na chynhwysedd?
- Symud i leoliad newydd, cadw dau adeilad ar wahân un babanod un iau, a neuadd chwaraeon a meithrinfa
- Adeiladu adeilad newydd ar stiltiau i atal llifogydd
- Gwell parcio a ffyrdd i’r ysgol
- Rwy’n teimlo y byddai’n well cadw’r ddwy ysgol ar wahân gan fod ysgolion llai yn cyflwyno llai o gymhlethdodau. Yn ddelfrydol gellir uwchraddio’r ddau adeilad ar wahân i ddarparu adeiladau ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fy mhryder i yw y bydd arian ond ar gael ar gyfer cyfuno
- Ble mae ASD yn cyd-fynd â’r cynlluniau gan fod y llywodraeth yn hyrwyddo awtistiaeth yn y brif ffrwd - SL Bateman 01745 369905
- Beth sydd bwysicaf ar ddiwedd y dydd arian neu ddisgyblion? Ymddengys yr edrychir ar ystadegau yn bennaf
- Sut y bydd staff yn cael eu trin os bydd yr ysgolion yn uno?
- Pa effaith fydd y newid yn ei gael ar y plant?